

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN:

# STRATEGAETH AILGYLCHU A GWASTRAFF

## 2018-2025

Strategaeth wastraff integredig ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN:**

# STRATEGAETH AILGYLCHU A GWASTRAFF

## 2018-2025

Strategaeth wastraff integredig ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

# Contents


1.0 **Crynodeb Gweithredol** ..... 7

2.0 **Cyflwyniad** ..... 13

2.1 **Y Cyd-destun Cenedlaethol** ..... 13

2.2 **Y Cyd-destun Lleol** ..... 16

3.0 **Ein Gweledigaeth a'n Strategaeth** ..... 19

3.1 **Gweledigaeth** ..... 19

3.2 **Nod** ..... 19

3.3 **Amcanion Allweddol** ..... 20

4.0 **Cyflawni'r Strategaeth** ..... 25

4.1 **Ymgysylltu yn Gyntaf** ..... 25

4.1.1 Trigolion ..... 25

4.1.2 Busnes ..... 26

4.1.3 Ysgolion ..... 27

4.1.4 Rhanddeiliaid a Grwpiau Diddordeb ..... 28

4.2 **Ailgylchu i Bawb** ..... 28

4.3 **Cydweithio** ..... 30

4.4 **Lleihau Gwastraff** ..... 31

4.5 **Gwelliant Parhaus** ..... 34

4.6 **Gorfodi Teg** ..... 36

4.7 **Ymrwymiad i'n Nodau - Amserlen** ..... 37

5.0 **Buddsoddiad** ..... 39

**ATODIADAU** ........ 41

**Atodiad 1:**

**Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu ac Amserlen** ........ 42

**Atodiad 2:**

**Y Gwasanaeth Presennol** ........ 44

**Atodiad 3:**

**Safonau Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Torfaen** ........ 45

**Atodiad 4:**

**Pecyn Cyfathrebu Integredig**

**– dull gweithredu ymarferol** ........ 47

**Atodiad 5:**

**Pecyn Cyfathrebu Ysgolion** ........ 49

**Atodiad 6:**

**Nodau Llesiant** ........ 51


LIQUID
FORMULA
ECOVER
FABRIC SOFTENER
Coca-Cola
Glencairn
Spring
still still still still
LEMON
Washing-up Liquid
500ml
fresh
SKIMM
MILK
CAUTION
LILT
PINEAPPLE & GRAPEFRUIT
tropical
lilt
JUST CHILL

# 1.0 Crynodeb Gweithredol

Credir y bydd cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau ailgylchu dros y ddegawd nesaf, yn enwedig o ystyried Targedau Ailgylchu Statudol Llywodraeth Cymru, sef ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio o leiaf 70% o Wastraff y Cartref erbyn 2025. Credir mai ffactor arall fydd yn cyfrannu at y cynnydd hwn yw'r twf a ragwelir yn nifer y tai yn Nhorfaen. Nod y strategaeth wastraff hon yw pennu'r dull gweithredu integredig sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau yr osgoir dirwyon Llywodraeth Cymru ac ,yn hanfodol, fod gan ddefnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid ddealltwriaeth glir o'r gwasanaethau gwastraff y bydd Torfaen yn eu darparu, y gweithgareddau addysgu ac ymgysylltu y gall eu darparu er mwyn hybu'r rhain, a chynlluniau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol er mwyn cyrraedd ei dargedau ailgylchu statudol. Gweledigaeth Torfaen yw

***darparu cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd lleol cynaliadwy y gall trigolion ymfalchïo ynddynt.***

Mae Torfaen yn manteisio ar y cyfle hwn i gyflwyno'i weledigaeth ar gyfer gwasanaethau gwastraff yn ystod y cyfnod 2018-2025, gan nodi sut y bydd yn gweithio y tu hwnt i dargedau Llywodraeth Cymru trwy gyflawni strategaeth integredig sengl sy'n dweud sut y bydd yn:

- Cyflawni ei weledigaeth;
- Y seilwaith sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni hyn;
- Sut y bydd yn cydweithio ag eraill; a
- Sut y mae'n bwriadu ymgysylltu â thrigolion a'u haddysgu yn gyntaf a, lle y bo'n briodol, cymryd camau gorfodi.
- Gosod nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r ffyrdd o weithio wrth galon pob peth a wnawn

Nodwyd chwe phrif Amcan er mwyn sicrhau bod Torfaen yn gwella gwasanaethau yn barhaus i gwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill.

**Amcan 1 – Ymgysylltu yn Gyntaf** - bydd Torfaen yn buddsoddi mewn rhaglen o gyfathrebu ac adnoddau i gefnogi'r Strategaeth Wastraff hon. Wrth wraidd yr holl weithgareddau, bydd yr egwyddor o Ymgysylltu yn Gyntaf.

**Amcan 2 – Ailgylchu i Bawb** - bydd Torfaen yn ceisio ymestyn gwasanaethau ailgylchu llawn fel bod gwasanaeth casglu rheolaidd neu drefniadau cyfleus eraill ar gael i bob aelwyd.

**Amcan 3 – Cydweithio** - bydd Torfaen yn parhau i weithio gyda'i drigolion, contractwyr, grwpiau cymunedol, a'r trydydd sector, er mwyn ehangu'r dewis o ddefnyddiau y gellir eu hailgylchu, uchafu ailgylchu a gwerth, a chynyddu'r cyfleoedd i ailddefnyddio.

**Amcan 4 - Lleihau Gwastraff** - bydd Torfaen yn archwilio cyfleoedd i gynyddu'r lefelau ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio er mwyn lleihau gwastraff.

**Amcan 5 - Gwelliant Parhaus** - bydd Torfaen yn parhau i adolygu ei wasanaethau



ac i gasglu adborth gan randdeiliaid er mwyn sicrhau bod arfer gorau ar waith a datblygiadau newydd yn cael eu mabwysiadu lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.

**Amcan 6 – Gorfodi Teg** -bydd Torfaen yn buddsoddi mewn Polisi Gorfodi sy'n deg ac yn gyfiawn, er mwyn sicrhau bod y trigolion hynny sydd ddim yn cymryd rhan yn y cynlluniau ailgylchu, yn gallu cymryd rhan.

Nodwyd rhaglen o gamau gweithredu a gwerthusir pob cam fesul achos. Os yw'n fforddiadwy ac yn symud y gwasanaeth yn ei flaen i gyflawni amcanion Torfaen, caiff ei weithredu, Adeg gweithredu'r rhaglen datblygir cynllun manwl.

Bydd ymgysylltu â chwsmeriaid, a'u haddysgu, yn rhan annatod o'r gweithgarwch parhaus a gweithgarwch y dyfodol, a bydd **TORFAEN** yn sicrhau y bydd unrhyw gyfathrebu ganddo:

- Yn targedu'r gynulleidfa a'r defnyddiau a fydd yn cael yr effaith bennaf yn ôl y dystiolaeth,
- Yn cael eu gyrru gan yr Amcanion,,
- Yn sicrhau Dychweliad ar fuddsoddiad trwy ddefnyddio deunyddiau, tactegau a negeseuon a brofwyd eisoes,
- Â ffocws ar gyflawni nifer fach o ymgyrchoedd neu weithgareddau yn dda,
- Yn glir ynghylch y Camau Gweithredu penodol sy'n angenrheidiol,
- Yn cynnwys trefniadau Gwerthuso ac adolygu cadarn, ac
- Yn mabwysiadu negeseuon Normadol sy'n targedu grwpiau cymdeithasol neu leoliadau penodol, er mwyn atgyfnerthu'r negeseuon mewn ffordd gadarnhaol.

Datblygwyd Strategaeth Rheoli Gwastraff Torfaen er mwyn ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ac i ddeddfwriaeth lywodraethu ddiweddar. Adlewyrcha'r strategaeth hon ymrwymiad Torfaen i warchod a chynnal yr amgylchedd ac i ddarparu gwasanaeth rheoli gwastraff o'r radd flaenaf ar gyfer holl drigolion Torfaen a busnesau lleol.

Mae Torfaen yn cydnabod na fydd un ateb yn addas i bawb, ac mewn rhai achosion bydd arno angen teilwra ei wasanaethau er mwyn darparu'r atebion gorau posibl i'r trigolion ac i fusnesau lleol. Ar y cyd â rhanddeiliaid a phartneriaid, bydd yn ceisio darparu gwasanaethau sy'n fuddiol yn amgylcheddol, a hynny mewn ffordd sy'n gynaliadwy yn ariannol, gan sicrhau gwerth am arian i drigolion a busnesau ar yr un pryd.

Trwy gyflawni yn erbyn y strategaeth hon, darperir gwasanaeth sy'n cyrraedd targedau'r llywodraeth, ond hefyd yn sicrhau

**"cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd lleol cynaliadwy y gall trigolion ymfalchïo ynddynt'".**



| Meysydd Targed Strategol Llywodraeth Cymru | Targedau 2024/25 | Sut Olwg sydd ar 'Da' i Drigolion Torfaen? |
|---|---|---|
| Lefelau isaf ailddefnyddio ac ailgylchu/compostio (neu Dreulio Anaerobig) | 70% | • Mae gan 100% o'r trigolion wasanaethau casglu sy'n eu galluogi i ailgylchu<br>• Mae gan drigolion yr wybodaeth i brynu'n ddoeth e.e. i osgoi taflu gormodedd o fwyd i ffwrdd<br>• Mae unrhyw wastraff a gynhyrchir yn cael ei osod mewn cynwysyddion ailgylchu cywir<br>• Mae'r Cyngor yn darparu casgliadau yn y cynhwysydd cywir yn y lle cywir ac yn brydlon |
| Cyfran isaf ailddefnyddio/ ailgylchu/compostio wrth wahanu yn y tarddle (gan gynnwys banciau y gall pobl ddod â defnyddiau iddynt a Chanolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref) | 80% | • Mae'r Cyngor yn cyrchu atebion economaidd ac amgylcheddol ar gyfer mwy o ddewis o ddefnyddiau<br>• Mae yna lefydd y gall trigolion fynd iddynt lle y gall arbenigwyr drwsio nwyddau sydd wedi torri ac ymestyn eu hoes<br>• Mae trigolion yn cael cyngor ar sut i uwchgylchu eu nwyddau a'u tecstilau eu hunain |
| Lefel uchaf o dirlenwi | 5% | • Lefelau gwastraff bwyd isaf a gwybodaeth ar gael yn rhad ac am ddim i'r holl drigolion<br>• Cyn lleied â phosibl o decstilau yn cael eu taflu mewn gwastraff gweddilliol - cyngor ar gael am ddim i drigolion |
| Lefel uchaf o ynni o wastraff | 30% | • Mae gan y Cyngor bolisïau ar waith sy'n hybu ymgysylltiad yn gyntaf a gorfodi teg yn olaf, gan roi cyfle i bob trigolyn ailgylchu yn y ffordd gywir, er mwyn lleihau gwastraff gymaint â phosibl |
| Lefelau isaf o baratoi i ailddefnyddio (heb gynnwys cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff) | 1.0% | • Mae gan drigolion fynediad at siopau ailddefnyddio a rhwydweithiau ailddefnyddio lle gallant fynd â nwyddau i drigolion eraill, ac maent yn eu defnyddio.<br>• Mae gwasanaethau ailddefnyddio yn creu incwm i'w ail-fuddsoddi yn y gwasanaeth ac yn y gymuned<br>• Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r trydydd sector i greu rhaglenni gwaith er mwyn gwella cyflogadwyedd a chyfleoedd i drigolion sy'n ddi-waith |



# 2.0 Cyflwyniad

## 2.1 Y Cyd-destun Cenedlaethol

Rhaid bod unrhyw strategaeth wastraff yn cyd-fynd â pholisïau cyfredol Ewrop a Llywodraeth Cymru, a deddfau deddfwriaethol niferus sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, gwell canlyniadau amgylcheddol a rhoi sylw i newid hinsawdd. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu atynt:

- Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr Undeb Ewropeaidd
- Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011
- Tuag at Ddyfodol Diwastraff
- Mesur Gwastraff (Cymru) 2010
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Cyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy yr UE
- Cyfarwyddeb Effeithlonrwydd Ynni yr Undeb Ewropeaidd
- Fframwaith Hinsawdd 2030 yr Undeb Ewropeaidd
- Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd

Diben Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw 'gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, nawr ac yn y dyfodol.' Yn y Ddeddf, nodir datblygu cynaliadwy fel elfen hanfodol sy'n dylanwadu ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol, ac mae'n cael ei osod fel blaenoriaeth i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys cynghorau Cymru.

Credir y bydd cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau gwastraff dros y ddegawd nesaf,

yn enwedig o ystyried y targedau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gosod, fel yr amlinellir isod. Lansiwyd Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru - "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" ar 21 Mehefin 2010. Mae'r strategaeth yn cyflwyno'r fframwaith hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff rhwng nawr a 2050.

Crynhoir blaenoriaethau ac egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu gwastraff fel a ganlyn:

- Darparu gwasanaethau casglu wrth ymyl y ffordd sy'n lleihau gwastraff gweddilliol, yn casglu lefelau uchel o ddefnyddiau glân y gellir eu hailgylchu ac yn costio'r lleiaf yn gyffredinol,
- Darperir gwasanaethau casglu mewn ffordd sy'n gymorth i sbarduno'r newidiadau y dymunir eu gweld mewn ymddygiad ymhlith aelwydydd ac ar yr un pryd yn gyfleus;
- Darparu gwasanaethau casglu wrth ymyl y ffordd sy'n gallu anfon gwastraff bwyd sydd wedi ei wahanu yn y tarddle at gyfleusterau treulio anaerobig sy'n cynhyrchu ynni adnewyddadwy a gwrtaith ar gyfer y pridd; a
- Darparu Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref lle mae'r arwyddion yn dda a digon o gyfarpar a staff er mwyn galluogi cymaint o bobl â phosibl i ddefnyddio cyfleusterau i ailgylchu dewis mor eang â phosibl o ddefnyddiau.



Erbyn 2025, mae'r strategaeth yn disgwyl y bydd lleihad o 27% yn y gwastraff a gynhyrchir ar draws pob sector ac y bydd 70% o'r hyn a gynhyrchir yn cael ei ailgylchu. O'r 30% sy'n weddill, gall dim mwy na 5% fynd i safleoedd tirlenwi gyda'r gweddill yn cael ei droi'n ynni.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r targedau statudol mwy heriol canlynol ar gyfer gwastraff trefol yn ei strategaeth wastraff. Amlygir y rhain yn Nhabl 1 isod:

*Tabl 1: Prif dargedau ar gyfer Gwastraff Trefol gan Lywodraeth Cymru - Tuag at Ddyfodol Diwastraff*

| Blwyddyn Darged | 2010/11 | 12/13 | 15/16 | 19/20 | 24/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| Lefelau isaf ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu/compostio (neu dreulio anaerobig) | 40% | 52% | 58% | 64% | 70% |
| Cyfran isaf ar gyfer ailddefnyddio/ ailgylchu/compostio wedi ei wahanu yn y tarddle * | 80% | 80% | 80% | 80% | 80% |
| Lefel uchaf o dirlenwi | - | - | - | 10% | 5% |
| Lefel uchaf o ynni o wastraff | - | - | 42% | 36% | 30% |
| Lefelau isaf o baratoi i ailddefnyddio (ac eithrio cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff) | - | 0.4% | 0.6% | 0.8% | 1.0% |
| **casglu wrth ymyl y ffordd, safleoedd dod â gwastraff a/neu amwynder dinesig* | | | | | |

Daw'r targedau law yn llaw â dirwyon ariannol sylweddol o £200 y dunnell, am beidio â bodloni'r lefelau ailgylchu gofynnol a/neu fynd dros y lefelau tirlenwi a ganiateir. Er mwyn rhoi'r cyfan yn ei gyd-destun, mae 1% yn is na'r targed gywerth â dirwy o tua £100,000.

O ganlyniad, mae'r Strategaeth hon yn ceisio adnabod y dull gweithredu integredig sy'n angenrheidiol er mwyn osgoi'r dirwyon hyn ac, yn hanfodol, sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid ddealltwriaeth glir o nodau'r gwasanaeth, yr union wasanaethau y bydd y Cyngor yn eu darparu, y gweithgareddau addysg ac ymgysylltu y gall ymgymryd â nhw i hybu'r rhain, cynlluniau'r Cyngor i wireddu ei ddyheadau a'r gofynion statudol yn y dyfodol a hefyd y gwaith y byddwn yn ei wneud gyda phartneriaid er mwyn cyflawni nodau ac agendâu ehangach.

## 2.2 Y Cyd-destun Lleol

Mae arwynebedd Torfaen yn 126km$^2$ ac mae ganddi boblogaeth o tua 91,400. Mae ynddi dri phrif anheddiad, o'r de i'r gogledd.

Erbyn hyn, mae llawer o rannau deheuol y fwrdeistref sirol wedi eu trefoli o amgylch clymdref Tref Newydd Cwmbrân sydd â'r boblogaeth fwyaf, sef tua 49,000. Canol Cwmbrân yw prif ardal manwerthu Torfaen ac mae'n denu 17 miliwn o gwsmeriaid y flwyddyn o ardal ehangach Gwent a choridor yr M4.

Yr anheddiad mwyaf nesaf yw hen dref ddiwydiannol Pont-y-pŵl, sydd â marchnad dan do ac awyr agored draddodiadol, ac mae yng nghanol y fwrdeistref gyda phoblogaeth o tua 36,000.

Mae gan dref Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon boblogaeth o tua 6,000 a dyma'r dref fwyaf gogleddol yn y fwrdeistref sirol. Mae'n rhan allweddol o Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon.

Mae'r Fwrdeistref Sirol ei hun yn cynnwys 24 rhanbarth etholiadol neu "ward".

Yng Nghynllun Corfforaethol Torfaen 2016-2021, nodir yn glir ei ymrwymiad i'r amgylchedd trwy ei - Weledigaeth Glân a Gwyrdd - cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd lleol cynaliadwy y gall trigolion ymfalchïo ynddynt.



Mewn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Torfaen wedi cyhoeddi ei Gynllun Llesiant i Dorfaen 2018-2023, ac mae hyn hefyd yn rhoi cyd-destun i'r strategaeth wastraff hon, gyda'i gweledigaeth i "Dorfaen fod yn lle gwych i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.   Lle, ble mae'r amgylchedd yn cael ei ddiogelu a'i wella, lle mae gan bob plentyn y dechrau gorau mewn bywyd a bod gan bobl gyfleoedd i weithio, dysgu a byw bywydau iachach a llewyrchus".




Wrth baratoi ei Strategaeth Wastraff Integredig, fel y caiff ei chyflwyno yn y ddogfen hon, cyfeiriwyd at y ddau gynllun er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i gyd-fynd â'r ymrwymiadau a nodir ynddynt, a dangosir hyn yn Atodiad 6.


Council Offices
Swyddfeydd y Cyngor
Refuse
Transfer Station
Gorsaf Trosglwyddo
Gwastraff
Operations Depot
Depo Gweithrediadau

# 3.0 Ein Gweledigaeth a'n Strategaeth

Yn y ddogfen hon cyflwynir gweledigaeth hirdymor ar gyfer gwasanaethau gwastraff, ac mae'n mynd y tu hwnt i gyflawni targedau Llywodraeth Cymru, gan nodi un strategaeth integredig sy'n cyflwyno sut y bydd Torfaen yn:

- Cyflawni ei weledigaeth;
- Y seilwaith sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni hyn;
- Sut y bydd yn cydweithio ag eraill; a
- Sut y mae'n bwriadu ymgysylltu â thrigolion a'u haddysgu yn gyntaf a, lle y bo'n briodol, cymryd camau gorfodi.
- Sicrhau bod nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r ffyrdd o weithio wrth galon pob peth a wnawn

## 3.1 Gweledigaeth

Mae gwastraff yn rhan allweddol o'r flaenoriaeth Glân a Gwyrdd a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2016-2021. Ein gweledigaeth yw

***darparu cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd lleol cynaliadwy y gall trigolion ymfalchïo ynddynt.***

## 3.2 Nod

Er mwyn helpu gwireddu'r weledigaeth, bydd tîm gwastraff y Cyngor yn anelu at ddarparu gwasanaeth proffesiynol a hyblyg, o ansawdd uchel, i'r trigolion a chwsmeriaid, er mwyn eu helpu i ddelio â'u gwastraff mewn ffordd wyrddach.

## 3.3 Amcanion Allweddol

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen dri gwerth - Teg, Cefnogol ac Effeithiol. Mae amcanion y Strategaeth Rheoli Gwastraff hon yn dangos bod y gwerthoedd hyn yn rhedeg trwy wythiennau ein strategaeth wrth i ni anelu at sicrhau bod y gwasanaeth yn wasanaeth i bawb, ein bod yn cefnogi trwy ymgysylltu a chydweithio a'n bod yn effeithiol trwy ganolbwyntio ar welliant parhaus. Bydd ein gwerthoedd yn arwain SUT y byddwn yn gweithio ac yn sicrhau'r canlyniadau yr ydym yn ceisio'u cyflawni. Trwy'r broses hon, byddwn yn sicrhau ein bod yn tywys ein trigolion a'n cwsmeriaid ar daith gyda ni. Byddwn hefyd yn sicrhau nad yw'n wasanaeth sy'n cael ei wneud iddynt ond yn hytrach ei fod yn wasanaeth sy'n cael ei wneud ar eu cyfer a gyda nhw.




Datblygwyd Strategaeth Wastraff Torfaen er mwyn ymateb i Ymgynghoriad Cyhoeddus diweddar a deddfwriaeth lywodraethu ddiweddar.

Rhoddodd y canlyniad i'r ymgynghoriad hwn nodau clir a phrif amcanion i Dorfaen, ac maent wedi eu cynnwys isod. Maent wedi cael eu datblygu i sicrhau y gall Torfaen wireddu ei Weledigaeth.

Adlewyrcha'r strategaeth hon ymrwymiad Torfaen i warchod a chynnal yr amgylchedd ac i ddarparu gwasanaeth rheoli gwastraff o'r radd flaenaf i holl drigolion Torfaen a busnesau lleol.


Yn y dyfodol, rhaid i ni atal gwastraff rhag cael ei gynhyrchu, a lle nad oes modd i ni ei atal, rhaid i ni leihau, atgyweirio, ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio mwy. Rhaid i ni weld gwastraff fel adnodd y dylid adennill ohono gymaint â phosibl o werth. Dylid sicrhau mai'r cam olaf un yn unig yw gwaredu, a dangosir hyn yn yr Hierarchaeth Wastraff yn Ffigur 1 i'r dde:

*Ffigur 1: Prif dargedau ar gyfer Gwastraff Trefol gan Lywodraeth Cymru - Tuag at Ddyfodol Diwastraff*




Ceir manylion llawn y gwasanaeth presennol yn Atodiad 2. I grynhoi, y gwasanaeth a ddarperir ar gyfer mwyafrif y trigolion yw casglu gwastraff gweddilliol a gwastraff gwyrdd (mis Mawrth tan fis Tachwedd yn unig) bob pythefnos a chasglu defnyddiau i'w hailgylchu a gwastraff bwyd bob wythnos.

Mae Torfaen yn cydnabod nad oes un ateb i bob her, ac mewn rhai achosion mae angen teilwra'r gwasanaethau hyn er mwy darparu'r ateb gorau posibl ar gyfer y trigolyn.



Nodwyd chwe phrif amcan er mwyn sicrhau bod Torfaen yn gwella ei wasanaethau yn barhaus ar gyfer cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill.

**Amcan 1 – Ymgysylltu yn Gyntaf** - bydd Torfaen yn buddsoddi mewn rhaglen o gyfathrebu ac adnoddau i gefnogi'r Strategaeth Wastraff hon. Wrth wraidd yr holl weithgareddau, bydd yr egwyddor o Ymgysylltu yn Gyntaf.

**Amcan 2 - Ailgylchu i Bawb** - bydd Torfaen yn ceisio ymestyn cyrhaeddiad gwasanaethau ailgylchu llawn, fel bod gwasanaeth casglu rheolaidd ar gael i bob aelwyd neu drefniadau cyfleus eraill ar gyfer y rheiny nad oes gwasanaeth ailgylchu rheolaidd ganddynt.

**Amcan 3 – Cydweithio** - bydd Torfaen yn parhau i weithio gyda'i drigolion, contractwyr, grwpiau cymunedol, a'r trydydd sector, er mwyn ehangu'r dewis o ddefnyddiau y gellir eu hailgylchu, uchafu ailgylchu a gwerth, a chynyddu'r cyfleoedd i ailddefnyddio.

**Amcan 4 - Lleihau Gwastraff** - bydd Torfaen yn archwilio cyfleoedd i gynyddu lefelau ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio er mwyn lleihau gwastraff a bod yn hyblyg i ymateb i ffactorau allanol sy'n ceisio newid gwastraff ac ymddygiad pobl.




**Amcan 5 - Gwelliant Parhaus** - bydd Torfaen yn parhau i adolygu ei wasanaethau ac i gasglu adborth gan randdeiliaid er mwyn sicrhau bod arfer gorau ar waith a datblygiadau newydd yn cael eu mabwysiadu lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.

**Amcan 6 – Gorfodi Teg** -bydd Torfaen yn buddsoddi mewn Polisi Gorfodi sy'n deg ac yn gyfiawn, er mwyn sicrhau bod y trigolion hynny sydd ddim yn cymryd rhan yn y cynlluniau ailgylchu, yn gallu cymryd rhan.

*Tabl 2: Sut y mae amcanion Torfaen yn cyd-fynd â'r Hierarchaeth Wastraff*

| Amcan yr Hierarchaeth Wastraff | Amcan Torfaen |
|---|---|
| Lleihau | Ymgysylltu yn Gyntaf<br>Gorfodi Teg<br>Gwelliant Parhaus |
| Ailddefnyddio | Lleihau Gwastraff |
| Ailgylchu | Ailgylchu i Bawb<br>Cydweithio |




DATE Thursday 7th March 2019
Fri 8/3/19
PERMIT NO
REGISTRATION
TIME
VEHICLE TURNED
Changes at your Household Waste Recycling Centre (HWRC)
Sort it before you bring it
As of 4 March 2019, every resident visiting the HWRC with their mixed bagged waste will have to sort material types separately for recycling. Residents who have not sorted their bagged waste either before they visit or on site at the HWRC will be required to take their waste home.
Why are we making these changes?
We want to ensure that residents in Torfaen recycle as much as possible.
60% of bagged waste can easily be recycled.
Recyclable materials such as food, glass, cans, paper, plastics and cardboard are being thrown away when they can be collected and recycled at the kerbside.
Please keep these items out of your residual bag.
Recycle at Home
food waste
cardboard
plastic pots, tubs and trays
tin, cans and foil
plastic bottles
cartons
newspapers & magazines
mixed glass bottles & jars
letters and envelopes
mixed textiles & clothes
Recycle at HWRC
hard plastics
hardcore & rubble
wood & timber
batteries
scrap metal
cooking oil
electrical
carpet
garden waste
paint
Thank you for recycling
www.torfaen.gov.uk/bagsorting
01495 762200
Torfaen yn ailgylchu
Torfaen recycles

# 4.0 Cyflawni'r Strategaeth

Mae Adran 4 yn amlinellu'r camau y bydd Torfaen yn eu cymryd er mwyn gwireddu ei Weledigaeth a sut y mae'n bwriadu cyflawni'r Amcanion a nodwyd ganddo. Gwelir crynodeb o'r cynllun gweithredu a'r amserlen ar gyfer y camau allweddol a'r ymrwymiadau hynny, yn Atodiad 1.

## 4.1 Ymgysylltu yn Gyntaf

Mae Atodiad 4 yn mapio sut y bydd cyfathrebu ac ymgysylltu yn cael eu defnyddio fel y dull gweithredu cyntaf bob tro i drigolion a busnesau lleol.

Bydd holl weithgareddau cyfathrebu **TORFAEN**:

- Yn targedu'r gynulleidfa a'r defnyddiau a fydd yn cael yr effaith bennaf yn ôl y dystiolaeth,
- Yn cael eu gyrru gan yr Amcanion,
- Yn sicrhau Dychweliad ar fuddsoddiad trwy ddefnyddio defnyddiau, tactegau a negeseuon sydd wedi eu profi a'u treialu, ond heb ofni treialu dulliau gweithredu arloesol, newydd os yw'r buddion posibl yn fwy na'r risgiau,
- Â ffocws ar gyflawni nifer fach o ymgyrchoedd neu weithgareddau yn dda,
- Yn glir ynghylch y Camau Gweithredu penodol sy'n angenrheidiol,
- Yn cynnwys trefniadau Gwerthuso ac adolygu cadarn, ac
- Yn mabwysiadu negeseuon Normadol sy' targedu grwpiau cymdeithasol neu leoliadau penodol, er mwyn atgyfnerthu'r negeseuon mewn ffordd gadarnhaol.

### 4.1.1 Trigolion

Bydd cyfathrebu Torfaen yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'n trigolion a bydd y negeseuon a'r dulliau a ddefnyddir yn cael eu cynllunio i gynorthwyo newid mewn ymddygiad ac i sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl defnyddio'r gwasanaeth. Bydd Torfaen yn gweithio mewn partneriaeth

â grwpiau rhanddeiliaid a phartneriaid ar gontract i roi canllawiau, gwybodaeth a chymorth er mwyn galluogi'r holl drigolion i ddefnyddio'r holl wasanaethau, gan uchafu ailgylchu a lleihau gwastraff



Bydd y nodau canlynol wrth wraidd y cyfathrebu hwn a'r gweithgareddau ymgysylltu:

- Annog mwy o drigolion i ailgylchu mwy o'r pethau cywir yn fwy aml
- Uchafu ymwybyddiaeth o fuddion ailgylchu ymhlith trigolion
- Cynyddu cyfraddau ailgylchu bwyd ymhlith trigolion
- Deall yr angen am welliant a newid wrth i gyfleoedd ailgylchu newydd ddod i'r amlwg

### 4.1.2 Busnes

Er bod Torfaen eisoes yn darparu gwasanaeth gwastraff masnach ac yn cynnig gwasanaethau ailgylchu i'w gwsmeriaid, yn 2019 bydd Torfaen yn adolygu'r gwasanaethau hyn yn llwyr er mwyn sicrhau y caiff cyfleoedd i wella'r gwasanaeth eu huchafu a sicrhau ei bod yn dal i fod yn ymarferol yn ariannol ac yn fasnachol i'r Cyngor barhau i'w darparu. Bydd yn ymchwilio i'r modd y gall ddylanwadu ar newid ymddygiadol ymhlith busnesau lleol ac annog yr ymddygiad ailgylchu a welir yn y cartref i gael ei drosglwyddo at y gweithle. Bydd yn ceisio sicrhau bod y modd y cynllunnir ei wasanaethau yn cefnogi'r dull gweithredu hwn.

Yn y lle cyntaf, bydd ffocws Torfaen ar drawsnewid y gwasanaeth casglu yn un sy'n cael ei arwain gan ailgylchu, gan alluogi busnesau lleol i ymateb i reoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Rhaid bod cynllun unrhyw wasanaeth newydd a gyflwynir yn bodloni anghenion busnesau a rhaid iddo adlewyrchu'r gofynion rheoleiddiol i fusnesau wahanu gwastraff o fath gwahanol gan sicrhau bod defnyddiau glân, heb eu halogi, y gellir eu hailgylchu, yn gallu cael eu gwahanu cyn symud ymlaen at y cam nesaf yn y broses.

### 4.1.3 Ysgolion

Rhoddir Addysg Amgylcheddol i ddisgyblion mewn ysgolion trwy'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Serch hynny, mae Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ategu at hyn trwy addysgu plant ymhellach mewn sawl ffordd arall (gweler Atodiad 4 Pecyn Cyfathrebu Ysgolion). Mae'r gweithgareddau presennol yn cynnwys: -




- Cyflwyniadau - parhau i weithio gyda phob ysgol i godi ymwybyddiaeth o wastraff a materion amgylcheddol.
- Gweithio gyda sefydliadau a grwpiau addysgol eraill i ddarparu rhaglenni ar gyfer ein hysgolion lleol
- Annog ysgolion i gymryd rhan bellach mewn

rhaglenni addysg rhyngweithiol er enghraifft Eco-sgolion, Masnach Deg ayb.

- Cynnal cystadlaethau parhaus trwy gydol y flwyddyn yn ymwneud ag addysg am wastraff, er enghraifft Keep Me Safe
- Cynnal gweithdai gwastraff mewn ysgolion cynradd ac uwchradd
- Rhoi deunyddiau derbyniol i ysgolion sy'n ategu at eu cwricwlwm amgylcheddol ac yn ei gefnogi
- Cynnig casgliadau ailgylchu ymhob ysgol yn Nhorfaen

### 4.1.4 Rhanddeiliaid a Grwpiau Diddordeb

Bydd Torfaen yn cydweithio gyda rhanddeiliaid a grwpiau diddordeb lleol, er enghraifft Cyfeillion y Ddaear a Ffrindiau Parc Pont-y-pŵl, er mwyn gwella gwasanaethau gwastraff a'r modd y mae'n cyrraedd trigolion, busnesau lleol ac ymwelwyr.

## 4.2 Ailgylchu i Bawb

Mae gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu Torfaen yn dilyn egwyddorion Glasbrint Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn Adran 1.2 uchod, a'u nod yw uchafu ailgylchu, cynhyrchu defnyddiau o ansawdd uchel i'w hailbrosesu, a gwaredu cyn lleied o wastraff â phosibl, a'r cyfan mewn ffyrdd sy'n gyfleus i gwsmeriaid.

Yn Atodiad 2 manylir ar y gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd i drigolion a busnesau yn Nhorfaen. I grynhoi, y gwasanaeth a ddarperir ar gyfer mwyafrif y trigolion yw casglu gwastraff gweddilliol a gwastraff gwyrdd bob pythefnos (mis Mawrth tan fis Tachwedd yn unig) a chasglu defnyddiau i'w hailgylchu a gwastraff bwyd bob wythnos.

Darperir casgliadau gwastraff gweddilliol wythnosol ar gyfer busnesau a chynigir gwasanaethau ailgylchu i bob cwsmer masnach.

Mae Torfaen yn cydnabod y bydd gofyn cydweithio ac ymgysylltu â phob grŵp rhanddeiliaid os yw'r gwasanaethau yn mynd i gyrraedd yr holl drigolion a busnesau o fewn ffiniau'r fwrdeistref

sirol. Bydd yn gweithio gyda grwpiau rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu gwasanaethau, ac i gynllunio a theilwra gwasanaethau er mwyn uchafu cyrhaeddiad gwasanaethau, lefelau ailgylchu a gwerth yr ailgylchu.

Bydd Torfaen yn sicrhau bod ei wasanaethau yn hygyrch i bob trigolyn newydd, er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth a'r cyfarpar i'w defnyddio. Bydd hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y twf a ragwelir mewn tai newydd ac yn y boblogaeth, yn y fwrdeistref sirol, sef tua 1900 a 4300, yn ôl eu trefn, erbyn 2025. Yn ogystal â'r newidiadau yn nemograffeg y boblogaeth, disgwylir y gallai fod cynnydd yn nifer y bobl sy'n symud i'r ardal yn sgil diddymu'r tollau ar Bontydd Hafren, a chysylltiadau rhad ac am ddim rhwng Cymru a Lloegr yn cael eu hagor.




Yn ddiweddar, mae Torfaen wedi dechrau cynnig swyddogaeth didoli bagiau du yn ei Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Anogir trigolion i ddidoli unrhyw fagiau du er mwyn sicrhau bod modd ailgylchu cymaint â phosibl, ac mae cynghorwyr ailgylchu ar y safle wedi cael eu hyfforddi i atgyfnerthu addysg ynghylch beth yn union y mae modd ei ailgylchu, wrth ymyl y ffordd ac yng Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

Mae Torfaen yn sensitif i bryderon y cyhoedd a bydd yn dod o hyd i ffyrdd o ymateb i faterion cyfredol a materion sy'n codi yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae yna don gyhoeddus yn erbyn

plastig a ffilm, yn sgil rhaglen Blue Planet II y BBC. Wrth i'r angen uwch i leihau plastig untro gael sylw ar raddfa genedlaethol, bydd Torfaen yn ymchwilio i'r holl gyfleoedd, er mwyn sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei gynhyrchu yn cael ei gasglu a'i ailbrosesu. Mae'n sylweddoli bod awdurdod cyfagos, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, yn hwyluso treialon ar hyn o bryd i gasglu ffilmiau plastig wrth ymyl y ffordd, ac i ddidoli a chrynhoi defnydd i'w ailbrosesu. Mae Torfaen hefyd yn gweithio gyda chwmni lleol, Capital Valley Plastics i gasglu ffilm plastig mewn banc a ddarperir gan y Cyngor y gall pobl ddod â ffilm plastig iddo.

Bydd Torfaen yn adolygu canlyniad y treialon hyn ac yn ystyried cyflwyno'r defnyddiau newydd hyn pan fydd yn adnewyddu ei fflyd yn 2020/21 a phan fydd ei gyfleuster crynhoi a byrnu, sydd wedi ei ddatblygu'n llwyr, ar waith. Bydd y treialon hyn, a'i waith dadansoddi cyfansoddiadol ei hun, yn galluogi Torfaen i ddeall cyfansoddiad y ffrwd o ffilm plastig wrth ymyl y ffordd, i wybod a fydd plastigion a gesglir wrth ymyl y ffordd yn gallu cael eu hailbrosesu o ymyl y ffordd i'r ail-brosesydd, yr hyn a gynhyrchir trwy'r broses a chanran adferiad ffilmiau plastig a gesglir wrth ymyl y ffordd, ynghyd ag effaith bosibl hyn ar gyfraddau ailgylchu. I ddechau, bydd Torfaen yn chwilio am gyfleoedd lleol, ond hefyd allfeydd rhanbarthol a chenedlaethol eraill i ailbrosesu'r defnydd a gesglir mewn bagiau plastig untro y gellir eu hailgylchu.

Bydd Torfaen yn parhau i adolygu'r farchnad ailbrosesu ar gyfer ailgylchu cewynnau a chynnyrch hylendid amsugnol, er mwyn asesu argaeledd marchnad ar gyfer y cynnyrch a ffordddadwyedd ailgylchu'r ffrwd gwastraff a gesglir yn erbyn y math presennol o waredu trwy ynni o wastraff.

Gellid dechrau casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a batris wrth ymyl y ffordd pan fydd Torfaen yn adnewyddu ei fflyd.

## 4.3 Cydweithio

Dull gweithredu Torfaen, erioed, yw cydweithio â'i awdurdodau cyfagos a'i bartneriaid cytundebol, er mwyn dod o hyd i'r ffyrdd o weithio sydd fwyaf buddiol yn amgylcheddol a mwyaf cost-effeithiol, gan fabwysiadu arfer gorau lle y bo'n ymarferol ac yn berthnasol. Trwy gydweithio, mae'r dull gweithredu hwn wedi sicrhau atebion cynaliadwy ar gyfer ein contractau

trin gwastraff gweddilliol, gwastraff bwyd a defnydd gwyrdd. Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gydweithio ar gyfer contractau'r dyfodol.

Er mwyn cyflwyno'r elfen ailddefnyddio yn y ganolfan ailgylchu gwastraff y cartref, mae gofyn cydweithio â'r contractor FCC, a sefydliadau'r trydydd sector. Rydym wedi sicrhau uned drws nesaf i ganolfan ailgylchu gwastraff y cartref fel bod modd cyflwyno'r elfen o ailddefnyddio eitemau'r cartref, a fydd yn sicrhau buddion fel gwell cyfradd ailgylchu i Dorfaen, mynediad at ddodrefn ac eitemau i'r gymuned, ac incwm i'w ail-fuddsoddi yn y gwasanaeth ac yn y gymuned. Bydd Torfaen yn gweithio'n agos gyda'r trydydd sector a'i gontractor er mwyn creu rhaglenni gwaith i wella cyflogadwyedd a chyfleoedd i drigolion di-waith, trwy brofiad gwaith yn y siop ailddefnyddio, a bydd yn cynorthwyo partneriaid yn y trydydd sector i gael mynediad at gynlluniau cyllido sydd ar gael iddynt er mwyn parhau i ddatblygu'r mentrau hyn. Cyflwynir hyn yn 2019.

Bydd Torfaen yn parhau i weithio gyda grwpiau cymunedol ac elusennau sy'n ceisio hybu ailddefnyddio.

Un o brif nodau'r cynllun Corfforaethol yw annog cydnerthedd cymunedau a grymuso unigolion i helpu eraill. Mewn ymateb i hyn, bydd swyddogion gwastraff Torfaen yn gweithio gyda chymdeithasau tai, busnesau a rhanddeiliaid yn ei leoliadau allweddol ei hun er mwyn creu rhwydwaith o Hyrwyddwyr Cymunedol. Byddwn yn dod o hyd i'r Hyrwyddwyr hyn yn sefydliadau rhanddeiliaid, a byddant yn unigolion sydd wedi ymrwymo i uchafu ailgylchu a lleihau gwastraff yn eu sefydliadau. Bydd Torfaen yn arfogi'r unigolion hyn gyda'r hyfforddiant a'r cyfarpar sylfaenol (biniau ailgylchu/posteri/taflenni ayb.) er mwyn hybu ymddygiad sy'n hyrwyddo'r Hierarchaeth Wastraff, ac ar adegau bydd yn cynnal gweithdy, ar ran y rhwydwaith, i rannu arfer gorau. Bydd y gost mor isel â phosibl ac yn cael ei lliniaru gan leihad mewn costau gwaredu a chynnydd mewn ailgylchu.

Bydd Torfaen hefyd yn defnyddio'r trefniadau cydweithio hyn i gywain adborth, i ddysgu ac i werthuso beth oedd yr effeithiau buddiol, ac i oleuo datblygiad mentrau eraill yn y dyfodol.

## 4.4 Lleihau Gwastraff

Mae Torfaen yn cydnabod mai dim ond un rhan ydyw o'r agenda Cyffredinol ar gyfer lleihau

gwastraff. O gymharu â siroedd eraill yn y Deyrnas Unedig, mae'r Fwrdeistref yn tanberfformio yn economaidd, ac felly mae angen i ni ddygymod â'r pos o gynyddu llewyrch economaidd, heb ffocysu ar fasnacheiddiwch a phrofi cyfoeth trwy brynu mwy o bethau a chreu llai o wastraff. Mae hwn yn bos na lwyddodd y mwyafrif i'w ddatrys. Serch hynny, byddwn yn gwneud ein gorau glas.

Yn 2018/19, gyda chymorth WRAP a Resource Futures, mae Torfaen wedi cynnal dadansoddiad manwl i bennu cyfansoddiad y gwastraff a'r defnyddiau y gellir eu hailgylchu yn y biniau gwastraff gweddilliol, a hefyd er mwyn deall pa mor llawn y mae'r biniau a beth sy'n cael ei ailgylchu bob wythnos.

Mae'r canlyniadau yn dangos bod dros 50% o gynnwys y biniau tenau a gesglir wrth ymyl y ffordd yn dal i gynnwys gwastraff y gellir ei ailgylchu, yr ydym yn ei gasglu trwy'r gwasanaethau casglu defnyddiau i'w hailgylchu wrth ymyl y ffordd. Y prif ddefnyddiau a oedd yn cael eu gosod yn y biniau tenau, yn lle eu hailgylchu, oedd gwastraff bwyd (31%), papur a cherdyn y gellir eu hailgylchu (7%) a dillad, tecstilau ac esgidiau (6%).

Trwy sicrhau bod ffocws negeseuon a gyfathrebir ac ymgyrchoedd ar y defnyddiau hyn, gallai fod yn gyfle i sicrhau nad yw'r eitemau hyn yn cael eu gosod yn y biniau tenau. Ar gyfer gwastraff bwyd yn benodol, bydd ffocws rhai o'r negeseuon ar leihau'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu.

Bydd yr wybodaeth hon yn goleuo'r angen am niferoedd yn ein fflydoedd yn y dyfodol, o bosibl defnyddiau ychwanegol i'w hailgylchu, cynnydd posibl yn y cyfraddau ailgylchu y gellid eu sicrhau gan Dorfaen a'i drigolion, cynnwys cyfathrebu yn y dyfodol a ffurf strategaethau casglu'r dyfodol, er mwyn uchafu'r buddion hyn.

Yn rhan o'i agenda addysgu, bydd Torfaen yn parhau i hybu lleihad mewn gwastraff ac yn defnyddio amryw fentrau cenedlaethol ac ymyriadau gan y llywodraeth i gyflawni'r amcan hwn.



Yn benodol, mae gwastraff bwyd yn wastraff y gellir ei osgoi. Bydd Torfaen yn parhau gyda'i ymgyrch **Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff**. Mae arbed bwyd yn arbed arian i bawb, ond mae yna fudd i'r amgylchedd hefyd gan ei fod yn gymorth i arafu cynhesu byd-eang a datgoedwigo. Wrth leihau'r bwyd sy'n mynd i'r bin gwelir lleihad mewn gwastraff deunydd pacio diangen hefyd. Bydd ymgyrchoedd yn rhoi cymorth ac arweiniad ynghylch sut y gall trigolion leihau gwastraff bwyd trwy gyngor effeithiol ond syml, er enghraifft ryseitiau ar gyfer defnyddio bwyd sy'n weddill ac arddangosiadau coginio.

Yn ogystal, bydd Torfaen yn dod yn bartner i Ymrwymiad Courtauld 2025. Mae Courtauld 2025 yn adeiladu ar lwyddiant cytundebau gwirfoddol blaenorol wrth helpu adnabod ardaloedd yn y gadwyn gyflenwi lle mae effeithlonrwydd adnoddau yn fater o bryder. Yna, mae'n datblygu arfer gorau ac yn ei rannu, er mwyn helpu cynyddu cynhyrchedd a chael gwared ar wastraff.

Wrth galon y broses, mae yna ymrwymiad 10-mlynedd gan bartneriaid yn y meysydd manwerthu, gweithgynhyrchu, lletygarwch ac amaethyddiaeth, ac awdurdodau lleol, i adnabod blaenoriaethau, datblygu atebion a gweithredu newidiadau, er mwyn lleihau carbon, dŵr a gwastraff sy'n gysylltiedig â bwyd ac yfed, o leiaf un rhan o bump, ymhen 10 mlynedd. Trwy gydweithio mae'n galluogi awdurdodau lleol i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o gyfathrebu gyda thrigolion a chreu partneriaethau gwaith gyda sefydliadau masnachol a sefydliadau yn y trydydd sector, er mwyn sicrhau y gall ddal gweddill y gwastraff bwyd a phecynnu unwaith y caiff gwastraff ei leihau.




Bydd Torfaen yn defnyddio menter genedlaethol **Caru Eich Dillad**, lle bydd cyngor a syniadau yn cael eu cyfathrebu er mwyn lleihau nifer y tecstilau a'r esgidiau sy'n cael eu taflu i ffwrdd, ac er mwyn dal y rheiny sy'n cael eu taflu yn derfynol. Mae'r testunau'n cynnwys - prynu'n ddoethach, gofalu a thrwsio, ailffurfio ac uwchgylchu, ac, yn olaf, opsiynau ar gyfer gwaredu dillad diangen.

Bydd Torfaen hefyd yn sicrhau ei fod yn bwydo i mewn i fentrau cenedlaethol sy'n ceisio lleihau gwastraff ac yn 2019 bydd yn cyfrannu at ymgynghoriad DEFRA ar gynllun ernes a dychwelyd i Gymru, lle mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddeall mwy am y ffordd y bydd cynlluniau o'r fath yn effeithio ar y ffordd y bydd awdurdodau lleol yn casglu defnyddiau, yn effeithio ar filiau bwyd dinasyddion, yn ogystal â materion eraill fel allyriadau carbon o fwy o gludiant a symud.

Yn ogystal, bydd Torfaen yn ymgynghori ar ddiwygio System Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Deunydd Pacio y Deyrnas Unedig, sy'n ceisio barn pobl ar fesurau i leihau'r deunydd pacio diangen ac anodd eu hailgylchu a chynyddu'r deunydd pacio sy'n gallu cael eu hailgylchu ac sydd yn cael eu hailgylchu, trwy ddiwygio'r Rheoliadau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Deunydd Pacio.

## 4.5 Gwelliant Parhaus

**Mesur ac adolygu** – bydd Torfaen yn cynnal gwerthusiad cadarn a pharhaus o'i weithgareddau cyfathrebu. Defnyddir y canfyddiadau i addasu a theilwra ei gynllun hirdymor a gweithredir arnynt cyn gynted â phosibl, er mwyn sicrhau bod modd eu hymgorffori i weithgarwch yn y dyfodol.

Rhaid bod unrhyw weithgarwch cyfathrebu yn cyflawni yn erbyn y nod cyffredinol o gynyddu'r gyfradd ailgylchu, ac felly caiff mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau gweithgarwch eu monitro ochr yn ochr ag effeithiau. Datblygir cynllun gwerthuso a chaiff ei osod wrth galon y Cynllun Gweithredu Strategol Integredig (Atodiad 1), a chaiff ei gyflawni yn unol ag arfer gorau a gydnabyddir gan yn



y diwydiant.

**Ymgysylltiad parhaus** - mae Torfaen yn gwerthfawrogi'r adborth gan ei drigolion ac mae'r ymgynghoriad a gafwyd yn 2016 wedi goleuo'r strategaeth hon. Gofynnir yn rheolaidd am adborth, trwy Arolwg Blynyddol Trigolion Torfaen, monitro cyfranogiad yn achlysurol, ac mae Torfaen hefyd wedi cynllunio arolygon ar gyfer y dyfodol yn dilyn unrhyw newidiadau mawr a gwelliannau i'r gwasanaeth rheoli gwastraff.

**Adolygiad Blynyddol** - yn sgil ymrwymiad Torfaen i sicrhau **Gwelliant Parhaus**, bydd gofyn iddo adolygu allbynnau'r cynllun gweithredu hwn yn rheolaidd. Bydd swyddogion ac aelodau yn monitro costau a hefyd yn gwneud cynnydd yn erbyn targedau gwastraff ac ailgylchu. Bydd swyddogion yn gweithio o fewn proses graffu Torfaen er mwyn sicrhau bod aelodau yn ymwybodol ac yn cael y cyfle i archwilio cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu hwn.

Gan fod y cynllun hwn yn rhychwantu cyfnod mor sylweddol o amser, mae hefyd yn debygol, yn sgil ffactorau allanol eraill, er enghraifft newidiadau yn y marchnadoedd ariannol, datblygiadau technolegol ac yn wir datblygiadau yn Nhorfaen ei hun, y byddai'n synhwyrol cynnal adolygiad mwy sylweddol bob tair blynedd, neu cyn pwynt penderfynu pwysig ynghylch polisi.

**Safonau Gwasanaeth** - Mae'r Cyngor hefyd wedi cyhoeddi Safonau Gwasanaeth ar gyfer y gwasanaeth gwastraff (gweler Atodiad 3). Datblygwyd y rhain yn dilyn ymgynghoriad gyda'n trigolion ac mae eu ffocws ar alluogi gwasanaeth effeithiol ac effeithlon sy'n bodloni disgwyliadau trigolion ac yn gymorth i wella'n barhaus ac i gyflawn ein targedau. Mae'r safonau yn nodi'n glir y gwasanaethau y gallwch ddisgwyl i ni eu darparu mewn perthynas â chasglu gwastraff, ac maent yn feincnod er mwyn monitro ein perfformiad.

**Monitro a Mesur ac Adolygu yn dilyn Newidiadau i'r Gwasanaeth**

Er mwyn deall effaith unrhyw newid i'r gwasanaeth, dylid cipio metrigau allweddol er mwyn adlewyrchu'r safle gwaelodlin a hefyd y safle wedi'r newid i'r gwasanaeth. Dylai'r tîm gwastraff ac ailgylchu gipio'r wybodaeth hon a'i dadansoddi a dylid adrodd arni gerbron yr Aelod Gweithredol dros yr Amgylchedd.

Isod ceir y data monitro yr argymhellir eu cipio.

*Tabl 3:* *Data Monitro*

| Newid i Wasanaethau neu Weithgarwch Ymgysylltu | Data | Blaenoriaeth |
|---|---|---|
| Casglu Wrth Ymyl y Ffordd | Tunelli Gwastraff ac Ailgylchu | Uchel |
| | Cyfradd Ailgylchu | Uchel |
| | Costau'r Gwasanaeth | Uchel |
| | Nifer yr Aelwydydd | Uchel |
| | Nodau'r Gwasanaeth a Chyfranogiad | Canolig |
| | Boddhad y Cwsmer | Uchel |
| Ymarfer Ail-lwybro Achlysurol | Nifer y cerbydau | Uchel |
| | Nifer yr Aelwydydd | Uchel |
| | Costau'r Gwasanaeth | Uchel |
| Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref | Tunelli Gwastraff ac Ailgylchu | Uchel |
| | Cyfradd Ailgylchu | Uchel |
| | Faint o Ddefnydd sy'n cael ei anfon i'w Ailddefnyddio | Uchel |
| | Costau Cyfalaf a Gweithredol | Uchel |
| | Defnyddio Safleoedd | Canolig |
| | Boddhad y Cwsmer | Uchel |
| Ymgysylltu ac Addysgu | Niferoedd sy'n Ailgylchu Gwastraff Bwyd | Uchel |
| | Niferoedd sy'n Ailgylchu | Uchel |
| | Arolwg Cyhoeddus Blynyddol | Uchel |
| | Nifer y Partneriaid Cymunedol | Uchel |
| | Nifer yr Hyrwyddwyr Cymunedol | Uchel |
| Gwastraff ac Ailgylchu Masnachol | Tunelli Gwastraff ac Ailgylchu | Uchel |
| | Cyfradd Ailgylchu | Uchel |
| | Costau Cyfalaf a Gweithredol – gan gynnwys cyfrifon elw a cholled | Uchel |
| | Nifer y Cwsmeriaid | Uchel |
| | Nifer y Cwsmeriaid a Enillwyd ac a Gollwyd | Uchel |
| | Cost Gyfartalog Codi Gwastraff a Thâl Cyfartalog Codi Gwastraff | Uchel |

## 4.6 Gorfodi Teg

Wedi mynd ar drywydd pob llwybr cyfathrebu ac ymgysylltu, mae Torfaen yn cydnabod y gallai fod arno angen defnyddio'r pwerau a roddir dan Adran 46 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 er mwyn cymryd camau gorfodi yn erbyn trigolion sydd ddim yn cadw at bolisïau ailgylchu Torfaen. Serch hynny, bydd Torfaen yn mynd ati gydag agwedd o **Ymgysylltu yn Gyntaf a Gorfodir Teg**

ac yn parhau i roi pob cyfle i bobl i gymryd rhan yn y ffordd gywir.

Defnyddir camau gorfodi o unrhyw fath dim ond pan fyddwn wedi mynd ar drywydd pob dull arall o gyfathrebu ac ymgysylltu.

Cyfathrebir polisi a phroses eglur i drigolion er mwyn cael pobl i ailgylchu popeth pryd bynnag y bo hynny'n bosibl. Arweinir hyn gan addysg er mwyn targedu'r trigolion hynny sydd ddim yn ailgylchu. Byddwn yn cipio data er mwyn i Dorfaen allu defnyddio Pecyn Cymorth Normio Cymdeithasol WRAP. Bydd hyn, ynghyd â'r defnydd o broses segmentu demograffeg Mosaic, yn sicrhau bod negeseuon a chyfryngau cyfathrebu a ddewisir, yn targedu ystadau, codau post, strydoedd ayb. yn benodol, gan atgyfnerthu mewn ffordd gadarnhaol.

Mae **"Gorfodi Teg"** yn golygu cyfathrebu ac ymgysylltu mewn ffordd dargedig gyda thrigolion sydd ddim yn ailgylchu, gyda'r nod o'u hannog a'u helpu i gymryd rhan ac i allu deall effaith gadarnhaol gweithredoedd trigolion eraill.

Mae Gorfodi Teg yn gweithio law yn llaw gyda chydnabod ac amlygu arfer da a llwyddiant, yn hytrach nag unrhyw fath o gymhelliant (y gellid ei weld fel cam sy'n gwobrwyo'r rheiny sydd ddim yn ailgylchu yn hytrach na chydnabod y rheiny sydd yn ailgylchu). Bydd negeseuon cyfathrebu yn ymwneud â chydnabod yr hyn y mae trigolion eraill wedi ei gyflawni wrth ailgylchu.

## 4.7 Ymrwymiad i'n Nodau - Amserlen

Yn Atodiad 1 ceir y camau gweithredu ar gyfer cyflawni Amcanion Torfaen. Maent yn amlinellu ymrwymiad Torfaen i barhau i wella, i gyflawni amcanion statudol ac i ymgysylltu â'i randdeiliaid trwy gydol y broses. Y dyddiadau a nodir yw'r dyddiadau y bydd Torfaen yn dechrau gweithio ar gyflawni unrhyw gam penodol.

Pennir sut y bydd y camau hyn yn cael eu cyflawni yn dactegol, ynghyd â chynnwys manwl y cyfathrebu integredig a'r modd y caiff ei estyn allan, i gefnogi'r Amcanion hyn, ar bwynt gweithredu pob prosiect ac elfen o newid.



# 5.0 Buddsoddiad

Mae yna nifer o gamau gweithredu, sydd wedi eu cynnwys yn Atodiad 1, a fydd yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf. Ar gyfer gwariant cyfalaf sy'n parhau i dywys y Cyngor tuag at Lasbrint Llywodraeth Cymru, bydd Torfaen yn paratoi ceisiadau am grant cyfalaf gan gyfiawnhau sut y byddai'r buddsoddiad o gymorth i gyrraedd targedau statudol, neu ragori arnynt, trwy'r newid neu'r gwelliant i'r gwasanaeth a nodwyd. Yn ogystal, datblygir achosion busnes buddsoddi i arbed.

Ar gyfer camau gweithredu eraill, bydd gofyn sicrhau buddsoddiad refeniw o'r gyllideb refeniw sy'n cael ei gwasgu fwyfwy. Yn yr amgylchiadau hyn, ceir dadansoddiad o'r budd yn erbyn y gost, fesul achos, i nodi sut y gellir cyflawni'r camau gweithredu trwy fuddsoddi i arbed.

**Datblygu cyfleuster crynhoi a byrnu** – er mwyn sicrhau cywirdeb ac ansawdd y defnyddiau y gellir eu hailgylchu, ac er mwyn uchafu'r gwerth o werthu'r defnyddiau, bydd gofyn i Dorfaen fuddsoddi i ddatblygu ei gyfleuster crynhoi a byrnu ymhellach, a bydd unrhyw benderfyniad ynglŷn â buddsoddiad yn seiliedig ar fforddadwyedd a dychweliad ar fuddsoddiad.

**Elfen ailddefnyddio Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref - bydd contractor a phartner Torfaen- FCC** – yn talu am y buddsoddiad gofynnol i gyflwyno'r gwasanaeth hwn. Cydnabuwyd yr angen am y gwasanaeth hwn wrth ddyrannu'r contract a thrafodwyd yr angen bryd hynny.

**Fflyd**– bydd Torfaen yn gweithio gyda WRAP er mwyn pennu sut y gallai ddefnyddio fflyd newydd o gerbydau er mwyn ei alluogi i gyflwyno defnyddiau ychwanegol i'r gwasanaeth casglu wrth ymyl y ffordd. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r strategaeth a gynlluniwyd ar gyfer adnewyddu'r fflyd, ond wrth gyflwyno defnyddiau newydd, parhau i orfodi  cyfyngiad ar wastraff gweddilliol a'r twf a ragwelir mewn tai, disgwylir y bydd angen sicrhau cerbydau ychwanegol. Byddai incwm ychwanegol o ddefnyddiau newydd a'r arbedion a ragwelir yn sgil lleihad yn y golled o ran cardfwrdd, yn lliniaru rhywfaint o'r gost ychwanegol hon ac yn gwella'r gyfradd ailgylchu gyffredinol.

Os ydym yn mynd i gyflwyno fflyd newydd a defnyddiau ychwanegol, yna byddai gofyn sicrhau bod y cyfleuster crynhoi a byrnu ar waith ac wedi ei ddatblygu'n llwyr.

**Cynwysyddion newydd** – mae gan Dorfaen bolisi a chyllideb barhaus ar gyfer adnewyddu a darparu cynwysyddion. Wrth gyflwyno defnyddiau newydd, ac yn sgil gwelliannau yn y diwydiant, bydd Torfaen yn adolygu'n barhaus y math o gynwysyddion y mae'n eu darparu ar gyfer ei drigolion a'i gwsmeriaid, gan ystyried datblygiadau yn y farchnad a chynnyrch newydd sydd ar gael ar y farchnad.

**Cyfathrebu**– datblygir amlinelliad o raglen gyfathrebu, addysgu a newid ymddygiad, a fydd yn cyfoethogi'r mesurau sydd eisoes ar waith, a bydd gofyn paratoi cyllideb blwyddyn ar flwyddyn unwaith y cytunir ar amcanion a chamau gweithredu. Er mwyn lleihau'r effaith ar ei gyllideb refeniw, bydd Torfaen yn defnyddio Mentrau Cenedlaethol ac yn gofyn am gymorth Llywodraeth Cymru a WRAP i weithredu'r rhain.

**Gwerth am arian** – ar gyfer pob ymgyrch gyfathrebu a phob newid i'r gwasanaeth, bydd Torfaen yn sicrhau gwerth am arian ac yn edrych ar ddefnyddio mentrau cenedlaethol a mabwysiadu pecynnau cymorth sydd eisoes ar waith, defnyddio cyfathrebiadau WRAP ac arbenigwyr gweithredol a chydweithio ag awdurdodau cyfagos er mwyn mabwysiadu arfer gorau, fel sy'n bodoli.

# ATODIADAU

# Atodiad 1:
# Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu ac Amserlen

| Gwasanaeth | Amcan Strategol | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref** | Ailgylchu i Bawb Cydweithio | Cyflwyno siop ailddefnyddio gan FCC/ Circulate | Gorfodi - cyflwyno swyddogaeth didoli bagiau du yng Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Gwiriadau preswyliaeth ar waith i gefnogi'r gwaith gorfodi | | Ymchwilio i opsiynau a fforddadwyedd ailgylchu polystyren a defnyddiau ailgylchadwy newydd eraill | Ail-osod contract Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref ac ystyried cydweithio gydag awdurdodau lleol cyfagos | | |
| | | | | | | | | |
| **Ailgylchu wrth Ymyl y Ffordd** | Ailgylchu i Bawb Lleihau Gwastraff | | Adolygu cynwysyddion ailgylchu ac ystyried unrhyw ddatblygiadau yn y diwydiant ac arfer gorau | | Cyflwyno fflyd newydd - gwella croes-heintiad cardfwrdd a gwella ailgylchu 1% | | | |
| | Lleihau Gwastraff Ailgylchu i Bawb | | | Ceisio cyflwyno defnyddiau ychwanegol i'w hailgylchu - batris, cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach, bagiau plastig a ffilm | | | Adolygu'r farchnad er mwyn adnabod cyfleoedd pellach i ymestyn defnyddiau wedi eu hailgylchu | |
| | Lleihau Gwastraff | | Ystyried ailgylchu bagiau plastig/ ffilm - dilyn canlyniad y treialon yn Capital Valley | | | | | |
| | Lleihau Gwastraff | | | Adnabod ffordd fforddiadwy o gasglu a gwerthu cewynnau/ cynnyrch hylendid amsugnol wedi eu hailgylchu | | | | |
| | Ailgylchu i Bawb Cydweithio | | | | Cydweithio gydag awdurdodau cyfagos eraill er mwyn caffael ar driniaeth gwastraff gwyrdd o'r newydd | | | |
| | | | | | | | | |
| **Gwastraff Gweddilliol wrth Ymyl y Ffordd** | Gorfodi Teg Lleihau Gwastraff | | | Gorfodi Teg - defnyddio'r dadansoddiadau targedig diweddaraf. Cyflwyno proses sy'n addysgu fel y cam cyntaf ac yn gorfodi fel y cam olaf. | | Adolygu amlder casgliadau sbwriel gweddilliol | | |
| | | | | | | | | |
| **Casgliadau cyfunol** | Gwelliant Parhaus | Dadansoddi cyfansoddiad gwastraff | Ymarfer ail-lwybro - sicrhau llwybrau cytbwys er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chynnwys twf tai | | Adolygu casgliadau mewn fflatiau, tai cymorth ac ardaloedd cymunol | Ymarfer ail-lwybro - sicrhau llwybrau cytbwys er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chynnwys twf tai | | |

| Gwasanaeth | Amcan Strategol | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff** | Gwelliant Parhaust | | Sicrhau bod yr orsaf drosglwyddo wedi ei harfogi i gefnogi Glasbrint gweithrediad didoli wrth ymyl y ffordd | | | | | |
| | | | | | | | | |
| **Gwastraff Masnach** | Collaboration Ailgylchu i Bawb | | Adolygu'r gwasanaeth Gwastraff Masnach presennol - gwell mynediad i'r gymuned fusnes leol | | Ail-lansio'r gwasanaeth gwastraff masnachol fel un sy'n cael ei arwain gan ailgylchu ac er mwyn ymateb i Ddeddf yr Amgylchedd. Ffocws ar droi cwsmeriaid yn rhai sy'n ailgylchu a gwarchod y portffolio | Targedu pob ysgol ac adeilad sy'n perthyn i'r Cyngor - y Cyngor i gefnogi "Hyrwyddwyr Ailgylchu" | Adolygu'r gwasanaeth Gwastraff Masnach presennol - gwell mynediad i'r gymuned fusnes leol | Datblygu a thyfu'r gwasanaeth gwastraff masnach |
| | | | | | | | | |
| **Ymgysylltu ac Addysg** | Ymgysylltu yn Gyntaf | Parhau gyda'r strategaeth ymgysylltu ag ysgolion | Cyfathrebu Gweledigaeth a Nodau'r Gwasanaethau Gwastraff gyda phob rhanddeiliaid | | | | | |
| | Ailgylchu i Bawb | | Parhau i weithio ar brosiect Newid Ymddygiad ynghylch Gwastraff Bwyd | Cysylltu canfyddiadau prosiectau newid ymddygiad at y gwaith o fonitro cyfranogiad sydd eisoes ar waith, er mwyn datblygu gweithgareddau cnocio drysau ac ymgysylltu mwy targedig ac effeithiol. | | | | |
| | Ymgysylltu yn Gyntaf | | | | | | | |
| | Gwelliant Parhaus | | Diweddaru'r wefan - sicrhau bod adborth cwsmeriaid yn elfen annatod - datblygu "My Say" | | | | | |
| | Lleihau Gwastraff | | "Ffocws ar Fwyd" - rhaglen newid ymddygiad sy'n defnyddio dull targedig | Adolygu'r ymgyrch gwastraff bwyd ac asesu llenwad biniau 140l | | | | |
| | Ymgysylltu yn Gyntaf | | | | | | | |
| | Lleihau Gwastraff | | Defnyddio ymgyrch fwyd Ysgolion Cynradd WRAP | | | | | |
| | Ymgysylltu yn Gyntaf | | | | | | | |
| | | Datblygu strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu drosfwaol | | | | | | |
| | Cydweithio | Adnabod rhanddeiliaid mewn grwpiau cymdeithasol a chymdeithasau tai | Sefydlu perthnasoedd gweithio gyda Chymdeithasau Tai a Grwpiau Cymunedol | | | | | |

| Gwasanaeth | Amcan Strategol | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cydweithio | | Sefydlu rhwydwaith o "Hyrwyddwyr Cymunedol" ar gyfer ysgolion a rhanddeiliaid/ lleoliadau allweddol | | | | | |
| | | | | | | | | |
| **Cyfathrebiadau sy'n cefnogi newidiadau i'r gwasanaeth** | Ymgysylltu yn Gyntaf Gwelliant Parhaus | | | | | | | |
| | Gwelliant Parhaus | | | | Arolwg o Foddhad wedi gwella'r gwasanaeth | | Arolwg o Foddhad wedi gwella'r gwasanaeth | |

# Atodiad 2: Y Gwasanaeth Presennol

| Cyngor Bwrdeisrfref Sirol Torfaen | |
|---|---|
| **Gwastraff Gweddilliol** | 95% yn cael ei gasglu bob pythefnos gan ddefnyddio biniau tenau porffor 140 litr â chlawr.<br>Cesglir cewynnau bob pythefnos hefyd gan y trigolion hynny sydd â phlant mewn cewynnau, gan ddarparu mwy o gapasiti. |
| **Defnyddiau i'w Hailgylchu** | Casgliadau bocs du wythnosol ar gyfer defnyddiau i'w hailgylchu, i bob aelwyd, mewn bocs du 55 litr.<br>Casglu defnyddiau i'w hailgylchu yn wythnosol, gan gynnwys tuniau bwyd a chaniau diod, aerosolau gwag, papurau newydd, cylchgronau a llythyron diangen, catalogau a llyfrau ffôn, jariau a photeli gwydr, poteli plastig, plastig cymysg, dillad, tecstilau a pharau o esgidiau.<br>1 Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref wedi ei hestyn yn ddiweddar a'i gwella yn 2014/15. |
| **Defnyddiau organig** | Casgliadau gwastraff gwyrdd bob pythefnos o fis Mawrth tan fis Tachwedd bob blwyddyn, mewn biniau olwyn 240 litr<br>Cesglir Gwastraff Bwyd a'i wahanu yn y tarddle, a hynny yn wythnosol mewn bocsys brown 23 litr. Mae'r Awdurdod yn rhoi papurau leinio i'r trigolion ar gyfer y gwasanaeth hwn. |
| **Gwastraff Masnach** | Darperir casgliadau Gwastraff Gweddilliol wythnosol ar gyfer tua 560 o gwsmeriaid masnach.<br>Cynigir casgliadau ailgylchu i bob cwsmer masnach |
| **Gwaredu Gwastraff** | Caiff Gwastraff Gweddilliol ei drin yng Nghyfleuster Ynni o Wastraff Viridor ym Mharc Trident yng Nghaerdydd. Mae'r contract am gyfnod o 25 mlynedd. Y cynharaf y gall y contract ddod i ben yw 2041. |
| **Trefniadau Cytundebol** | Contract gydag FCC Environment ar gyfer darparu a rheoli Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref a'r orsaf drosglwyddo gwastraff yn Ffordd Panteg, Y Dafarn Newydd. Mae'r contract am gyfnod o 7 mlynedd. Y cynharaf y gall y contract ddod i ben yw mis Mawrth 2022.<br>Caiff Gwastraff Bwyd ei drin yng nghyfleuster Treulio Anerobig Agrivert yn Stormy Down, Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r contract am gyfnod o 15 mlynedd. Y cynharaf y gall y contract ddod i ben yw 2033.<br>Caiff gwastraff o'r ardd ei drin yng nghyfleuster Compost Y Bont-faen yn Y Bont-faen. Mae'r contract am gyfnod o 4 mlynedd. Y cynharaf y gall y contract ddod i ben yw 2021. |

# Atodiad 3: Safonau Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Torfaen

## Y Cynhwysydd Cywir, Y Lle Cywir, Yr Amser Cywir

Mae'r cyngor wedi creu cyfres o safonau ar gyfer gwastraff ac ailgylchu a fydd yn ein galluogi i wella'n casgliadau ac yn gymorth i ni gynyddu cyfraddau ailgylchu ledled y sir.

Mae'r safonau'n nodi'n glir y gwasanaethau y gallwch ddisgwyl i ni eu darparu mewn perthynas â'ch casgliadau gwastraff, ac maent yn feincnod er mwyn monitro ein perfformiad.

Maent hefyd yn egluro'r hyn y gallwch ei wneud i sicrhau bod casgliadau sbwriel ac ailgylchu mor effeithlon â phosibl.

## Gallwch ddisgwyl i ni

| Amcan Strategol | Safon Gwasanaeth |
|---|---|
| **Ailgylchu i Bawb** | Ddarparu casgliad ailgylchu wythnosol a chasgliad sbwriel bob pythefnos, ar ddiwrnod penodol.<br>Darparu bin porffor â chlawr ar gyfer sbwriel, bocs brown ar gyfer gwastraff bwyd, bag glas ar gyfer cardfwrdd, bag du ar gyfer ailgylchu a bin gwyrdd ar gyfer gwastraff yr ardd.<br>Darparu cynwysyddion ailgylchu newydd am ddim, ond mae yna daliadau mewn rhai amgylchiadau.<br>Darparu gwasanaeth casglu sbwriel â chymorth i bobl sy'n methu â mynd â'u biniau allan am resymau corfforol, a gwasanaeth sachau cewynnau am ddim i deuluoedd.<br>Darparu cynwysyddion gwastraff newydd o fewn pythefnos. |
| **Ymgysylltu yn Gyntaf** | Darparu mynediad at yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaethau sydd ar gael a sut i ailgylchu eich gwastraff.<br>Sicrhau bod ein criwiau yn gwrtais ac yn foesgar wrth gasglu eich gwastraff.<br>Casglu eitemau sydd yn y cynwysyddion cywir yn unig - os oes rhywbeth yn y bin/bocs/bag anghywir byddwn yn gadael nodyn i ddweud pam na chafodd ei gasglu. |
| **Lleihau Gwastraff** | Darparu Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref a nifer o safleoedd y gall pobl ddod â gwastraff ac eitemau i'w hailgylchu iddynt.<br>Cymryd gofal gyda'ch bin/bocs/bag a'i roi nôl yn y lle cywir. Byddwn yn casglu unrhyw sbwriel yr ydym yn ei ollwng wrth gasglu.<br>Darparu gwasanaeth i gasglu eitemau swmpus o'r cartref a chasgliadau gwastraff masnach. |
| **Gwelliant Parhaus** | Ymateb i'ch cwestiynau yn unol â'n Safonau Corfforaethol. |

## Da chi, helpwch ni trwy

| Amcan Strategol | Safon Gwasanaeth |
|---|---|
| **Gydweithio** | Placing your waste container out for collection before 7am on your allocated day.<br>Not reporting your waste container as 'missed' unless it's after 4pm on your collection day.<br>Taking in your waste container by 7pm on your collection day.<br>Placing all your waste containers for collection where your property meets the pavement (or your designated collection area).<br>Personalising your waste containers with a house number/name to reduce the risk of it being lost/stolen and help the crews put it back in the right place.<br>Placing a net over your recycling box to stop materials being blown out of the box.<br>Not weighing your box down.<br>Rinsing out your bottles and cans, crushing your plastics, cartons and bulky items, and not putting recycling in carrier bags unless it's for textiles.<br>Sorting your waste and recycling before visiting the HWRC. |
| **Ymgysylltu yn Gyntaf** | Being courteous to the crews during their rounds and showing patience when driving behind them and comply with the Highway Code.<br>Staying up to date with the information we provide. |

Ceir holl fanylion safonau gwasanaeth Torfaen ar ei wefan

https://www.torfaen.gov.uk/cy/RubbishAndRecycling/Household-Waste-Service-Standards/Waste-and-Recycling-Service-Standards.aspx

# Atodiad 4:
# Pecyn Cyfathrebu Integredig – dull gweithredu ymarferol

## Cyfathrebiadau sydd wrth wraidd y strategaeth i gyflawni nodau Torfaen

- Bydd **ffocws** ar - a blaenoriaeth ar gyfer - yr ymddygiad/camau gweithredu a fydd yn cyfrannu fwyaf at amcanion trosfwaol y strategaeth ailgylchu a gwastraff.

- Rhaid bod gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu **yn cyd-fynd â'r strategaeth wastraff ehangach ac yn gweithio law yn llaw â hi**. Yn benodol, mae hyn yn golygu cysylltu at unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth yn y dyfodol, fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu yn Atodiad 1. Bydd ffocws ar gyfathrebu yn rhagorol am newidiadau i'r gwasanaeth, gan gynnwys gweithgarwch cyfathrebu, ymgysylltu a newid ymddygiad ychwanegol sydd wedi eu hamserlennu o amgylch hyn.

- Cyfathrebu gyda **ffocws ar brosiectau** yn hytrach na chyfathrebu yn barhaus, gyda dau fath o brosiect cyfathrebu: prosiectau sydd wedi eu cysylltu at newid i'r gwasanaeth (sy'n benodol i'r adeg honno ac yn cael eu cyflwyno fel elfen annatod o'r newid ehangach i'r gwasanaeth), a phrosiectau sydd heb gysylltiad at newid i'r gwasanaeth (sydd ddim yn benodol i'r adeg honno ac yn cael eu cyflwyno fel prosiect annibynnol), a bydd amcanion ac amserlenni pob un yn glir. O ganlyniad, gallai fod **un ffocws cyfathrebu allweddol** ar unrhyw un adeg; mae'n golygu hefyd y bydd cyfnodau byr rhwng prosiectau pan fydd lefelau allbynnau cyfathrebu yn isel e.e. cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor..

- Gall fod yn ddrud datblygu gweithgareddau a deunyddiau cyfathrebu o'r dechrau'n deg a gall gymryd llawer o amser hefyd. Lle'n bosibl, bydd y Cyngor **yn defnyddio deunyddiau/templedi** ayb. sydd eisoes yn bodoli, gan eu diwygio yn ôl yr angen, i fodloni ei anghenion penodol ei hun. Nid yw hyn yn golygu y bydd 'un ateb i bob sefyllfa', ond yn hytrach y bydd y Cyngor, lle'n bosibl, yn parhau i ddefnyddio deunyddiau/templedi ayb. sydd eisoes yn bodoli fel man cychwyn, gyda deunyddiau a gweithgareddau ychwanegol, wedi eu teilwra'n arbennig, yn cael eu datblygu yn nes ymlaen, yn ôl yr angen. Mae'r dull hwn **yn isel o ran cost a risg**, o gymharu â datblygu deunyddiau o'r dechrau'n deg.

- Ymchwilio i gyfleoedd i **elwa ar Raglen Newid Ymddygiad aml-flwydd Llywodraeth Cymru** a mentrau cenedlaethol eraill wrth iddynt ddatblygu. Mae hyn yn debygol o gynnig cyfleoedd niferus i gymryd rhan ac i gydweithio.

- Parhau i fanteisio i'r eithaf ar **rwydweithiau a phartneriaethau sydd eisoes yn bodoli**.

- Defnyddio data Mosaic a chanfyddiadau o waith ar newid ymddygiad mewn perthynas â gwastraff, er mwyn **targedu segmentau penodol o'r gynulleidfa**, gan ddefnyddio'r sianelau a'r negeseuon a fydd yn gweithio orau iddynt. Bydd y ffocws yn parhau ar dargedu'r segmentau hynny a fydd yn cael yr **effaith bennaf – ac a fydd hefyd yn sicrhau'r gwerth gorau am arian**.

- Defnyddio'r canfyddiadau o'r gwaith cyfredol ar newid ymddygiad mewn perthynas â gwastraff bwyd, i oleuo ymyriadau newid ymddygiad yn y dyfodol ac yn dilyn y dull hwn **profi a threialu tactegau newydd** cyn eu hestyn allan yn eang, er mwyn canolbwyntio ar y rheiny sy'n gweithio orau.

# Atodiad 5:
# Pecyn Cyfathrebu Ysgolion

## Mae'r prosiectau allweddol yn cynnwys:

1. **Wot to Rot** – Mae'r cynllun yn annog plant ysgol i ddechrau compostio ac i helpu'r amgylchedd.

2. **Ymgyrch Ailgylchu Batris** – mae ysgolion ledled y fwrdeistref wedi cael pecyn rhyngweithiol i ysgolion ar gyfer plant o oedrannau gwahanol, bocsys casglu, cynlluniau gwersi a chasgliad ailgylchu rhad ac am ddim.

3. **Ysgolion yn Ailgylchu** – Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cynllun ailgylchu papur, gwydr a photeli plastig mewn ysgolion ledled y fwrdeistref sirol. Mae'r fenter yn rhoi cyfle i bob ysgol yn yr ardal i ailgylchu.

4. **Ymweliadau addysgol** – Cynnal ymweliadau addysgol i ysgolion lleol i gyfleuster crynhoi a byrnu Torfaen yng Nghwmbrân.

5. **Trash Times** – Cylchlythyr wedi ei gyfeirio at blant ysgol, sy'n manylu ar siwrnai "Dan y Can" wrth iddo helpu Torfaen i ddod yn lle gwyrddach a glanach, trwy gyfrwng strip comig.

6. **Eco-sgolion** – Mae'r rhaglen eco-sgolion yn brosiect sydd ar waith ledled Ewrop ac mae wedi ei chynllunio i annog addysg amgylcheddol a gweithredu amgylcheddol.

7. **Addysg am Sbwriel** – Gweithio gydag ysgolion i leihau ac, yn y pendraw, atal sbwriel. Ymgyrchoedd casglu sbwriel ar dir yr ysgol ac ar hyd y strydoedd cyfagos, bob tymor, neu sefydlu trefniadau rheolaidd ar gyfer monitro'r tir.

8. Cydlynir **cystadleuaeth Keep Me Safe** gan Heddlu Gwent. Mae Tîm Gwastraff Torfaen yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Tân De Cymru, Western Power a'r Groes Goch Brydeinig. Mae arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu yn cael ei gynnwys yn y cyflwyniadau.

9. **Criw Hanfodol** – Bob blwyddyn mae'r tîm Gwastraff yn ymgysylltu â rhyw 1,000 o ddisgyblion blwyddyn 6 er mwyn trafod materion cynaliadwyedd, gwastraff ac ailgylchu.

10. **Her Heddiw yw Byd Yfory** – Diwrnod cynaliadwyedd Pobl Ifanc Torfaen, sef digwyddiad a gynlluniwyd i hybu cynaliadwyedd ymhlith plant ysgol, trwy ddulliau rhyngweithiol sy'n hwyl a sbri.

11. **Gweithdai i Ysgolion Cynradd ac Uwchradd** – gweithgaredd ar thema gwastraff a gyflwynir i ddosbarthiadau unigol.

12. **Datblygu prosiectau gyda Bagloriaeth Cymru** – Nodi cyfleoedd gydag ysgolion ar gyfer mwy o ryngweithio gyda'r ysgolion a'u disgyblion er mwyn datblygu prosiectau y gall plant eu cynllunio ac yna'u cyflawni fel eu bod yn gallu mesur eu heffaith bosibl ar eu hamgylchedd eu hunain.

# Atodiad 6:
# Nodau Llesiant

| Sut y bydd Cynllun Gweithredu Gwastraff Strategol Integredig Torfaen yn arwain at fuddion niferus i'n cymunedau ac yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol. | | | |
|---|---|---|---|
| **Nodau llesiant** | **Y 5 ffordd o weithio a sut y byddwn yn eu cyflawni** | **Amcanion Gwastraff Strategol Torfaen sy'n cyflawni yn erbyn y nodau llesiant** | **Sut y bydd camau gweithredu yn cyfrannu mewn ffordd fuddiol at y nodau llesiant cenedlaethol** |
| **Cymru lewyrchus**<br>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. | Hirdymor | **Ailgylchu i Bawb**<br>**Lleihau Gwastraff**<br>**Cydweithio** | Cynllunio gwasanaethau mewn ffordd sy'n sicrhau y gall bob un gymryd rhan.<br>Uchafu buddion technolegau sy'n dod i'r amlwg er mwyn ailgylchu mwy a chyflwyno defnyddiau ychwanegol.<br>Darparu cyfleusterau ailddefnyddio a Chanolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref sy'n fwy addas i drigolion ar gyfer y dyfodol er mwyn cyrraedd cyfradd ailgylchu o 70% erbyn 2025.<br>Wrth i ddefnyddiau newydd gael eu cynnwys yn y gwasanaethau ailgylchu, bydd Torfaen yn chwilio am allfeydd ailbrosesu yng Nghymru. |
| **Cymru sy'n fwy Cyfartal**<br>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol ac economaidd). | Integreiddio a Chydweithio | **Ailgylchu i Bawb**<br>**Gorfodi Teg** | Gwasanaethau sy'n hygyrch i'r holl drigolion, busnesau lleol ac ymwelwyr sy'n dod i Dorfaen.<br>Bydd gwelliannau i Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu ei defnyddio.<br>Ymgysylltu a chyfathrebu mewn ffordd sy'n sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gymryd rhan mewn cynlluniau ailgylchu a lleihau gwastraff. |

| Sut y bydd Cynllun Gweithredu Gwastraff Strategol Integredig Torfaen yn arwain at fuddion niferus i'n cymunedau ac yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol. | | | |
|---|---|---|---|
| **Nodau llesiant** | **Y 5 ffordd o weithio a sut y byddwn yn eu cyflawni** | **Amcanion Gwastraff Strategol Torfaen sy'n cyflawni yn erbyn y nodau llesiant** | **Sut y bydd camau gweithredu yn cyfrannu mewn ffordd fuddiol at y nodau llesiant cenedlaethol** |
| **Cymru o Gymunedau Cydlynus**<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | Cydweithio a Chynnwys | **Ymgysylltu yn Gyntaf Cydweithio** | Arolygon Cyhoeddus ac Arolygon Boddhad sy'n rhoi llais i drigolion a busnesau lleol ac yn dylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer.<br>Gweithio gyda thrigolion a rhanddeiliaid lleol dros wasanaeth rheoli gwastraff sy'n gynhwysol.<br>Annog cydnerthedd cymunedau a grymuso unigolion i helpu eraill.<br>Gweithio gyda chymdeithasau tai, busnesau a rhanddeiliaid yn ei leoliadau allweddol ei hun er mwyn creu rhwydwaith o Hyrwyddwyr Cymunedol.<br>Cydweithio â phartneriaid yn y trydydd sector er mwyn datblygu cyfleoedd cyflogaeth a gwella cymwysterau er enghraifft hyfforddiant NVQ, er mwyn cynyddu ailddefnyddio a'r buddion cymdeithasol ehangach. |
| **Cymru Iachach**<br>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. | Integreiddio a Chynnwys | **Ailgylchu i Bawb** | Rhaglen o gyfathrebu ac ymgysylltu ag ysgolion fel bod ein plant yn deall sut y gallant wneud gwahaniaeth o oed cynnar.<br>Addysg wedi ei thargedu - annog pobl i wneud y peth iawn trwy apelio at eu hymdeimlad o berthyn.<br>Negeseuon â ffocws sy'n pwysleisio ar elfennau cadarnhaol ac yn apelio at ymdeimlad o hunaniaeth a chymuned trigolion.<br>Bydd Torfaen yn sicrhau bod ei wasanaethau yn hygyrch i bob trigolyn newydd, er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth a'r cyfarpar i'w defnyddio. |
| **Cymru Gydnerth**<br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid hinsawdd). | Hirdymor | **Ailgylchu i Bawb Lleihau Gwastraff Gwelliant Parhaus** | Strategaeth integredig sy'n cyd-fynd â'r Hierarchaeth Wastraff. |

| Sut y bydd Cynllun Gweithredu Gwastraff Strategol Integredig Torfaen yn arwain at fuddion niferus i'n cymunedau ac yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol. | | | |
|---|---|---|---|
| **Nodau llesiant** | **Y 5 ffordd o weithio a sut y byddwn yn eu cyflawni** | **Amcanion Gwastraff Strategol Torfaen sy'n cyflawni yn erbyn y nodau llesiant** | **Sut y bydd camau gweithredu yn cyfrannu mewn ffordd fuddiol at y nodau llesiant cenedlaethol** |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**<br>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | Atal | **Ailgylchu i Bawb**<br>**Lleihau Gwastraff**<br>**Gwelliant Parhaus** | Strategaeth integredig sy'n cyd-fynd â'r Hierarchaeth Wastraff trwy annog pobl i atal gwastraff, yn cynnig cyfleoedd i ailgylchu'r hyn a gynhyrchir ac yn lleihau'r gwastraff sy'n cael ei waredu. |
| **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu**<br>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | Cynnwys a Chydweithio | **Ymgysylltu yn Gyntaf** | Addysg ac Ymgysylltu - darperir yr holl gyfathrebu gyda'n cymuned yn Gymraeg ac yn Saesneg. |

## Y pum ffordd o weithio

**Hirdymor** - pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion byr dymor a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor.

**Integreiddio** - ystyried sut y gallai nodau llesiant cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

**Cynnwys** - pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â budd wrth gyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywioldeb yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

**Cydweithio** - Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

**Atal** - sut y gallai gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu, fod o gymorth i gyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN:**

# STRATEGAETH AILGYLCHU A GWASTRAFF
## 2018-2025

Strategaeth wastraff integredig ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

©2020 Communications Design (3015)